# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Mawrth 2021

Amser: 09.01 - 09.26

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Caroline Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Sian Gwenllian; Roedd Dai Lloyd yn dirprwyo ar ei rhan.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at ohirio’r eitem a ganlyn tan 23 Mawrth:

- Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (10 munud)

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor Busnes y byddai hi a'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio o bell yr wythnos hon.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 23 Mawrth 2021 –**

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am frechiadau COVID-19 (30 munud)~~ – *tynnwyd yn ôl*
- Datganiad gan y Prif Weinidog: COVID-19: Blwyddyn yn Ddiweddarach (45 munud)
- Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru (45 munud)
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021 (15 munud)
- Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (5 munud) – *gohiriwyd o 16 Mawrth*
- ~~Dadl:  Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru (60 munud)~~ – *dataniad llafar*

**Dydd Mercher 24 Mawrth 2021**

- Gorchymyn Diwygio Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2021 / Gorchymyn Etholiadau Cymru (Darpariaethau Amrywiol) 2021 (15 munud)
- Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (15 munud)

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 24 Mawrth 2021 –**

- ~~Datganiadau 90 Eiliad (5 mun)~~
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
  - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi

    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Busnes Cynnar yn Dilyn Etholiad Senedd
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Sub Judice
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Adalw'r Senedd
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Aelodaeth Pwyllgorau
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau Amrywiol
    - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog Dros Dro
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Diffiniad o Grwpiau Gwleidyddol (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 05-21 (15 munud)
- Cyfnod Pleidleisio (15 munud)
- Datganiadau Cloi (30 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyflwyno adroddiad erbyn dydd Llun 22 Mawrth.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes fod Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 i fod i gael eu gwneud a'u gosod heddiw, a'u trafod ar 23 Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor felly y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rhain hefyd erbyn dydd Llun 22 Mawrth.

### 4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Cam-drin Domestig i graffu arno.

## 5 Busnes y Senedd

### 5.1 Trefniadau cyflwyno a gosod ar ôl yr etholiad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes bod y Swyddfa Gyflwyno yn parhau i fod ar gau, ac ni fydd yn derbyn unrhyw fusnes tan ar ôl Cyfarfod Llawn cyntaf y Chweched Senedd, ar wahân i dderbyn unrhyw fusnes lle mae'r amseru'n hanfodol neu ffurflenni cofrestru buddiannau, y gellir eu cyflwyno o 7 Mai ymlaen.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd:

- caiff cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynir o hynny ymlaen eu cyhoeddi yn y ffordd arferol, gan nodi mai'r dyddiad olaf ar gyfer eu hateb fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno;
- y caiff cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynir i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w hateb gan y Prif Weinidog, a fydd yn penderfynu pwy ddylai eu hateb, hyd nes y penodir Cabinet newydd; ac
- y caiff cwestiynau ysgrifenedig a gyflwynir i Gomisiwn y Senedd eu cyflwyno i'w hateb gan y Llywydd.

## 6 Adroddiadau Rheolau Sefydlog Drafft

### 6.1 Rheolau Sefydlog Dros Dro

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 24 Mawrth.

### 6.2 Diffiniad o Grwpiau Gwleidyddol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 24 Mawrth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Canllawiau etholiadol y Senedd i Weinidogion a staff Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor Busnes y ddau ddarn o ganllawiau.

## Unrhyw faterion eraill

***Ail-osod Offerynnau Statudol***

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y ffaith bod y Llywodraeth wedi tynnu'n ôl ac wedi ail-osod rhai Offerynnau Statudol drafft ddydd Gwener yn dilyn camgymeriadau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Gan fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dal i edrych ar nifer o offerynnau statudol drafft, pe bai angen tynnu'n ôl ac ail-osod ymhellach, efallai na fydd digon o amser iddo gyflwyno adroddiad ac efallai y bydd angen ceisio atal offerynnau statudol i gynnal y dadleuon perthnasol.